# Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Gwent Actif

Pecyn Gwybodaeth i Ymgeiswyr



GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Llythyr gan y Cadeirydd | Tud 3 |
| Trosolwg o Gwent Actif | Tud 4 |
| Gweledigaeth a Dull o Weithredu Newydd | Tud 5-6 |
| Rôl y Cyfarwyddwr Rhanbarthol | Tud 7-10 |
| Manyleb y Person | Tud 11 |
| Ymddygiad a Gwerthoedd | Tud 12 |
| Y Broses Recriwtio | Tud 13 |


GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT



# Llythyr gan y Cadeirydd

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch i chi am eich diddordeb mewn ymuno â Gwent Actif fel ein Cyfarwyddwr Rhanbarthol.

Mae'r rôl yn cynnig y cyfle i chi wella bywydau tua 600,000 o drigolion Gwent drwy hyrwyddo chwaraeon a gweithgareddau cymunedol yn gyffredinol.

Fel partneriaeth chwaraeon newydd mae gennym y cyfle i ail-lunio sut mae chwaraeon ac ymarfer corff yn cael eu cyflwyno a'u hyrwyddo ledled Gwent. Byddwch yn gweithio gyda'r pum awdurdod lleol, Chwaraeon Cymru a rhanddeiliaid allweddol yn y rhanbarth, gan gyflwyno ffyrdd newydd o weithio.

Fel Cyfarwyddwr Rhanbarthol byddwch yn gyfrifol am lunio ein gweledigaeth a'n strategaeth, gan weithio'n agos gyda'r Cadeirydd a'r bwrdd. Rydyn ni'n awyddus i gydweithio a chael mynediad at arfer gorau lle bynnag y mae'n bodoli, a'i ledaenu ledled Gwent.

Mae hwn yn gyfle cyffrous iawn sy'n gofyn am unigolyn ymroddedig gydag ystod eang o sgiliau a dyhead cryf i wneud gwahaniaeth. I'r unigolyn cywir, bydd yn sicrhau datblygiad personol, boddhad yn ei swydd a'r cyfle i ddatblygu rhwydweithiau cydlynol.

Bydd cefnogaeth gan y Cadeirydd a'r bwrdd yn ogystal â Chwaraeon Cymru, gyda'r cyfle i ddysgu gan y Partneriaethau Chwaraeon eraill ledled Cymru.

Fel Cadeirydd, rwy'n teimlo'n angerddol am y gwahaniaeth y gallwn ei wneud, yn enwedig yn ardaloedd difreintiedig Gwent - mae ymarfer corff yn dod â chymaint o fanteision i les ac iechyd y meddwl, cydlyniant cymunedol, yn ogystal â mynd i'r afael â llawer o'r materion allweddol sy'n wynebu ein rhanbarth.

Rwy'n edrych ymlaen at weithio gyda'n Cyfarwyddwr Rhanbarthol newydd a rhoi ein gweledigaeth ar waith.

Kevin Bounds


GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

# Trosolwg

Mae Chwaraeon Cymru ar siwrnai i newid y tirlun chwaraeon cymunedol ledled Cymru a sut mae chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cael eu cyflwyno, gan greu newid sylweddol mewn lefelau chwaraeon a gweithgarwch corfforol ymysg pobl Cymru. Gyda'n gilydd rydyn ni wedi ymrwymo i gael mwy o bobl yn actif drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Bydd ein Partneriaeth yn dod â rhanddeiliaid allweddol ledled Gwent at ei gilydd, pobl sy'n deall pwysigrwydd chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac sy'n canolbwyntio ar gyflawni eu manteision. Gyda'n gilydd, byddwn yn datblygu gweledigaeth strategol i arwain ein gwaith ar y cyd ar draws y rhanbarth, gan gyfrannu at y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Bydd ein Partneriaeth yn cael ei harwain gan wybodaeth a bydd yn canolbwyntio ar yr unigolyn o ran ei dull, gan ddarparu arweinyddiaeth strategol, cynllunio a chomisiynu ar lefel ranbarthol, gyda phwrpas cyffredin yn cael ei gyflawni ar lefel leol, gan sicrhau bod gan bawb fynediad cyfartal i chwaraeon a gweithgarwch corfforol drwy ystod o gyfleoedd sy'n diwallu eu hanghenion orau. Rydyn ni'n awyddus i gyflwyno ffyrdd newydd o weithio, gan fanteisio i'r eithaf ar botensial dull rhanbarthol o gyflawni, tra hefyd yn creu gweledigaeth gymhellol a fydd yn meithrin perthnasoedd strategol newydd gyda nifer eang o sefydliadau a phartneriaid ar draws pob diwydiant.




Bydd Gwent Actif yn gweithredu fel model cynnal (gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn cynnal), gyda fframwaith llywodraethu cadarn a thryloyw.


Wrth galon y model bydd bwrdd cytbwys, cynhwysol, amrywiol a medrus a fydd yn canolbwyntio ar ein cyfeiriad strategol. Mae'r bwrdd yn adlewyrchu buddiannau'r sector chwaraeon a gweithgarwch corfforol a'r sgiliau a'r arbenigedd sydd eu hangen i gyflawni uchelgais Gwent.

# Gweledigaeth Newydd ar gyfer Gwent

## *'Gall pawb yng Ngwent fyw bywyd actif ac iach'*

Ein gweledigaeth ni yw dod â chymunedau Gwent at ei gilydd drwy feithrin lles a chwaraeon. Rydyn ni wedi ymrwymo i greu dyfodol disgleiriach ac iachach ar gyfer y rhanbarth drwy ganolbwyntio ar gydweithio a gweithredu ar y cyd.

Mae ein gweledigaeth ni'n seiliedig ar 3 elfen:-



### Gwent Iachach:

Rydyn ni'n ceisio creu Gwent ddisgleiriach ac iachach, lle mae lles gwell wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud. Drwy hyrwyddo ffyrdd o fyw actif, rydyn ni'n cefnogi iechyd corfforol a meddyliol unigolion.

### Uno Pobl drwy Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol

Ein nod ni yw dod â phobl at ei gilydd drwy chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Drwy annog cyfranogiad, rydyn ni'n cefnogi lles yr holl drigolion, gan helpu i greu cysylltiadau cryfach ac ymdeimlad o berthyn.

### Ffyrdd o Fyw Actif ac Iach i Bawb

Rydyn ni wedi ymrwymo i sicrhau bod pawb yng Ngwent yn cael y cyfle i fwynhau ffordd o fyw actif ac iach. Rydyn ni'n gweithio i gael gwared ar rwystrau a chreu amgylcheddau cynhwysol lle gall pob unigolyn elwa o gymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

# Dulliau Gweithredu Newydd



**Hyrwyddo Lles drwy Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol**
Mae'r agenda lles yn ganolog i'n dull gweithredu, gan osod chwaraeon a gweithgarwch corfforol fel prif sbardunau ar gyfer sicrhau gwell canlyniadau iechyd. Rydyn ni'n pwysleisio lles actif, gan gydnabod pwysigrwydd iechyd corfforol a meddyliol yn ein rhaglenni a'n mentrau.

**Canlyniadau a Rennir a Ffocws Cymunedol**
Mae cyflawni canlyniadau a rennir yn hanfodol i'n methodoleg. Drwy gydweithio a chysylltu yng nghymunedau Gwent, rydyn ni'n blaenoriaethu ymdrechion sy'n canolbwyntio ar y gymuned. Ein nod ni yw ehangu cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan sicrhau bod pawb yn cael y cyfle i elwa o well lles.

**Manteisio ar Bartneriaethau ac Adnoddau**
Mae ehangu ein rhwydwaith o bartneriaid yn ein galluogi ni i gyflawni'n fwy effeithiol o fewn cymunedau Gwent. Drwy uno adnoddau a meithrin partneriaethau, gallwn gael effaith fwy sylweddol a chynaliadwy. Mae cydweithio a chysylltu yn parhau wrth galon ein strategaeth, gan ein sbarduno i weithio'n hyblyg, yn arloesol, ac yn hyblyg.

**Dull sy'n Seiliedig ar Le a Lleoleiddio**
Mae ein dull ni o weithredu wedi'i wreiddio yn y cyd-destun lleol, gan ddefnyddio data a gwybodaeth i nodi meysydd cyffredin ac anghenion rhanbarthol penodol. Rydyn ni'n mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar le i weithio mewn cymunedau, gan sicrhau bod ein gweithgareddau'n berthnasol ac yn ymatebol i flaenoriaethau lleol. Mae cynnal ymwybyddiaeth o iaith a chyfathrebu yn cryfhau ein hymdrechion lleoleiddio ymhellach.

**Diffinio Chwaraeon ac Ehangu Cyfranogiad**
Mae'r ffocws yn ymestyn y tu hwnt i chwaraeon traddodiadol i gwmpasu chwaraeon cymunedol a lles, gyda phwyslais ar atal yn gynnar ac ehangu cyfranogiad.

**Effaith a Chynaliadwyedd**
Nod ein partneriaeth ni yw annog, dylanwadu, galluogi ac ysbrydoli cymunedau. Rydyn ni wedi ymrwymo i effaith gynaliadwy, gan ymdrechu i sicrhau gwelliannau parhaus, hirdymor yn hytrach nag ymyriadau tymor byr.

GWENT | ACTIVE
ACTIF | GWENT

# Rôl y Cyfarwyddwr Rhanbarthol

Mae hwn yn gyfle cyffrous i arweinydd profiadol, trawsnewidiol a all helpu i ddylanwadu ar ddyfodol chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn rhanbarth Gwent.


Rydyn ni'n chwilio am unigolyn ysbrydoledig sy'n teimlo'n angerddol am werth ac effaith chwaraeon cymunedol a gweithgarwch corfforol ac yn credu y dylai pawb fod yn actif gyda'i gilydd, am oes.

Bydd y rôl hon yn darparu'r arweinyddiaeth, yr egni, yr wybodaeth a'r sgiliau i lywio Gwent Actif fel partneriaeth gredadwy, arloesol a chynaliadwy sy'n cynrychioli rhanbarth Gwent i gyd. Bydd y tasgau'n amrywiol, yn heriol, ac yn aml yn gymhleth.

GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

## Prif Gyfrifoldebau:

- Bod yn arweinydd strategol ar gyfer datblygu chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Gwent, gan gyflawni twf cynaliadwy yn nifer y bobl actif, gan arwain at well iechyd a lles ar draws y rhanbarth.
- Bod yn gyfrifol am ddatblygu a chynnal perthnasoedd effeithiol â rhanddeiliaid a phartneriaid ledled Gwent, gan sicrhau ymrwymiad i'r weledigaeth ar gyfer y rhanbarth, gyda phartneriaid dosbarthu lleol yn arbennig.
- Denu a datblygu buddsoddiad ariannol cynaliadwy ar gyfer Gwent, gan alluogi'r rhanbarth i ffynnu a helpu i ddiogelu datblygiad chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn y dyfodol.
- Cynrychioli Gwent Actif ar faterion o arwyddocâd rhanbarthol a chenedlaethol, gan gysylltu â Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru a phartneriaid rhanbarthol a chenedlaethol eraill i ddylanwadu a chynghori ar bolisi a strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Nghymru.
- Gweithredu fel eiriolwr blaenllaw dros chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan godi proffil Gwent Actif, ei bwrpas a'r cyfraniad mae'n ei wneud at iechyd, lles, yr economi ranbarthol, yr amgylchedd a'r uchelgais o hyrwyddo Gwent fel lle gwych i fyw a gweithio ynddo.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd effeithiol gyda'r Cadeirydd Annibynnol, y Bwrdd a phartneriaid.
- Gweithredu fel uwch gynghorydd strategol ar gyfer chwaraeon cymunedol yng Ngwent, gan eiriol dros y rhanbarth mewn fforymau cenedlaethol, meithrin dulliau cydweithio ar draws sectorau a gyda Phartneriaethau Chwaraeon eraill er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effaith, ac ymgysylltu â phartneriaid gwirfoddol, cyhoeddus a masnachol i gefnogi gweledigaeth a chyflawniad y Bartneriaeth.
- Hyrwyddo gwerth chwaraeon drwy hunaniaeth brand a strategaeth farchnata gref.



# Cyfarwyddwr Rhanbarthol




GWENT | ACTIVE
ACTIF | GWENT

## Arwain y Dyfodol:

- Cyflawni gweledigaeth ac uchelgeisiau Gwent Actif, gan sicrhau bod strategaethau a modelau cyflawni yn cysylltu â blaenoriaethau rhanbarthol a lleol ar draws meysydd iechyd, addysg, cydraddoldeb, yr economi a'r amgylchedd.

- Dylunio a gweithredu model comisiynu newydd ar gyfer darparu chwaraeon a gweithgarwch corfforol yng Ngwent. Mae angen lefel uchel o ddylanwad gwleidyddol, cynllunio data a gwybodaeth, modelu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid i gyflawni'r rôl. Penderfynu pwy a faint o bartneriaid sy'n cael eu hariannu yng Ngwent i gyflawni amcanion strategol, a bydd angen i'r rôl reoli'r broses gyflwyno a'r gwaith cysylltiedig o reoli newid.

- Sbarduno newid system gyfan, cefnogi iechyd a lles, hyrwyddo arloesedd a ffyrdd newydd o weithio.

- Dylanwadu ar Lywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, a phartneriaid Gwent ar lefel strategol uwch i bennu a chyflawni'r strategaeth ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch yng Ngwent.

- Cynnal ymwybyddiaeth o weithgareddau mewn Partneriaethau Chwaraeon eraill a rhanddeiliaid allweddol i feithrin dulliau cydweithio ac effeithlonrwydd.

- Gweithredu fel yr uwch gynghorydd strategol yng Ngwent ar gyfer, ac ar ran, darparu chwaraeon cymunedol yng Nghymru a rhanbarth Gwent.

- Eiriol dros y rhanbarth drwy ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, Chwaraeon Cymru, a grwpiau eraill i ddylanwadu ar bolisi a strategaeth.

- Manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i ddatblygu buddsoddiad ariannol cynaliadwy yn y rhanbarth, gan greu cyfleoedd incwm, datblygu cynigion ariannu, trafod partneriaethau masnachol a cheisio nawdd yn rhagweithiol.

- Bod yn gyfrifol am gydlynu'r gwaith o reoli rhaglenni ar draws y rhanbarth er mwyn cyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt yn llwyddiannus.

- Codi proffil chwaraeon yng Ngwent a Chymru drwy greu a gweithredu hunaniaeth brand gref sy'n cyd-fynd â strategaeth farchnata a hyrwyddo effeithiol i gyfleu'r weledigaeth ar gyfer Gwent Actif a'r achos dros chwaraeon, ac effaith gadarnhaol hynny ar iechyd, lles ac economi ranbarthol Gwent.

- Llywio darpariaeth yn erbyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chroesawu arloesedd i gyflawni uchelgeisiau'r rhanbarth.

# Cyfarwyddwr Rhanbarthol



GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

## Arwain Gydag Eraill:

- Meithrin a chynnal perthynas waith effeithiol gyda'r Cadeirydd Annibynnol, y Bwrdd a phartneriaid Gwent Actif.
- Darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig, gan sbarduno dull cydweithredol o gyflawni strategol a ffordd ddeinamig o weithio.
- Datblygu diwylliant o ddysgu a datblygu yn unol â fframwaith arweinyddiaeth y sector chwaraeon.
- Datblygu a rheoli perthnasoedd effeithiol, dibynadwy gyda rhanddeiliaid allweddol presennol, a dylanwadu ar bartneriaid newydd, gwirfoddol a masnachol i gymryd rhan weithredol yn y gwaith o gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Gwent Actif.
- Llunio rhwydweithiau effeithiol i helpu i werthu negeseuon allweddol a dylanwadu ar werth chwaraeon a gweithgarwch corfforol i gymuned rhanbarth Gwent, gan arwain at sicrhau gwell canlyniadau.

# Cyfarwyddwr Rhanbarthol



GWENT ACTIF | ACTIVE GWENT

**Arwain ar gyfer Canlyniadau:**

- Arwain ar ddatblygu a chyflawni strategaeth Gwent Actif.
- Sicrhau bod cydraddoldeb, cynhwysiant ac amrywiaeth wedi'u hymgorffori yn arferion ac egwyddorion Gwent Actif a'i bartneriaid cydweithredol.
- Sicrhau bod systemau rheoli perfformiad yn cael eu datblygu a'u rhoi ar waith, gan ganiatáu adrodd rheolaidd ar gynnydd yn erbyn targedau a chanlyniadau rhanbarthol i'r Bwrdd a phartneriaid ariannu, gydag ymrwymiad cryf i welliant parhaus.
- Rheoli adnoddau dynol, ariannol a ffisegol yn effeithiol ac effeithlon a datblygu ffrydiau incwm amrywiol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor.
- Sicrhau bod Gwent Actif yn cyflawni yn erbyn y trefniadau llywodraethu y cytunwyd arnynt, gofynion Fframwaith Arwain Chwaraeon Cymru ac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill.
- Er mwyn sicrhau bod Gwent Actif yn cydymffurfio â'r holl ofynion rheoleiddio o ran iechyd a diogelwch, diogelu, cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Rheoli a datblygu cyllideb o £2.3 miliwn ar ran Bwrdd Gwent Actif, gan gysylltu â chyllidwyr eraill a Chwaraeon Cymru.

**Arwain Fy Hun:**

- Dangos dilysrwydd, tegwch a gwerthoedd cadarnhaol er mwyn dylanwadu'n gadarnhaol ar eraill.
- Meithrin ymddiriedaeth gyda thimau a phartneriaid, ac ymrwymo i ddatblygiad personol parhaus a gwelliant parhaus drwy groesawu heriau a cheisio adborth rheolaidd.

# Manyleb y Person

| Maes | Hanfodol | Dymunol |
|---|---|---|
| Cymwysterau | • Gradd neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol a / neu brofiad sylweddol a pherthnasol clir | • Cymhwyster Rheoli Prosiectau neu Raglenni |
| Gwybodaeth | • Gwybodaeth am Bartneriaethau Chwaraeon<br>• Gwybodaeth am Reoli Prosiectau a Rhaglenni<br>• Gwybodaeth am Ddatblygu Chwaraeon | • Gwybodaeth am y tirlun datblygu chwaraeon leol yng Ngwent<br>• Gwybodaeth am reoliadau a systemau ariannol y Cyngor |
| Profiad | • Tystiolaeth sylweddol neu brofiad amlwg ac effeithiol mewn swydd arweinyddiaeth.<br>• Tystiolaeth sylweddol o arwain a gweithredu gweledigaeth a strategaeth.<br>• Tystiolaeth sylweddol o wneud penderfyniadau sy'n cael eu harwain gan ddata sydd wedi gwella gwasanaethau.<br>• Profiad sylweddol o weithio mewn partneriaeth rhwng sectorau, fel awdurdodau lleol, addysg bellach, addysg uwch, y trydydd sector a/neu iechyd<br>• Profiad clir o weithio gydag uwch swyddogion ar lefel genedlaethol, ranbarthol neu leol<br>• Profiad o arwain prosiectau strategol rhanbarthol<br>• Profiad o arwain newid mewn amgylchedd amlasiantaeth | • Profiad o reoli cronfeydd data a systemau gwybodaeth lleol<br>• Profiad o weithio gyda rhanddeiliaid perthnasol<br>• Profiad o reoli contractau.<br>• Profiad o reoli sawl cyllideb gyda model ariannu cymhleth<br>• Profiad a gwybodaeth o reoli prosiectau<br>• Profiad o weithredu strategaethau cydraddoldeb ac amrywiaeth effeithiol. |
| Gallu a Sgiliau | • Bod yn frwdfrydig, yn ddibynadwy a gallu cymell eich hun<br>• Hanes a gallu clir i rwydweithio a meithrin perthnasoedd effeithiol o fewn ac ar draws sefydliadau a gyda phartneriaid ar sail leol, ranbarthol a Chymru gyfan.<br>• Gallu gweithredu ar lefel strategol, gan helpu’r gwaith o ddatblygu polisïau a gweithdrefnau rhanbarthol a chorfforaethol<br>• Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol<br>• Arbenigedd uwch o ran trefnu a rheoli prosiectau<br>• Gallu rheoli a dehongli data a darparu briffiau o ansawdd uchel<br>• Sgiliau arweinyddiaeth a rheoli clir<br>• Gallu gweithio dan bwysau, lleihau risg a rheoli amser yn effeithiol ynghyd â meddu ar sgiliau trefnu rhagorol.<br>• Gallu rheoli mewn amgylchedd sy'n newid gydag ethos o welliant parhaus | • Gallu meddwl yn strategol, cynllunio'n effeithiol a blaenoriaethu camau gweithredu<br>• Gallu gweithio'n agos ac yn effeithiol gydag Uwch Swyddogion mewnol ac allanol<br>• Gallu pennu blaenoriaethau a rheoli cynnydd eich gwaith eich hun a gwaith pobl eraill yn erbyn gofynion cystadleuol<br>• Gallu meddwl yn arloesol ac yn rhagweithiol, gan ddarparu atebion a gwelliannau ymarferol<br>• Gallu cyfathrebu yn y Gymraeg. |

# Ymddygiad a Gwerthoedd Disgwyliedig

- Rheoli perfformiad pobl. Cynnal sesiynau un i un, adolygiadau, goruchwylio polisïau AD a datblygu pobl. Cydnabod, parchu a gwobrwyo cyfraniadau pobl, gan werthfawrogi gwahaniaethau.
- Meithrin perthnasoedd gwaith cadarnhaol. Rhoi arweiniad a chyngor i eraill.
- Rhannu arferion gorau a chyfrannu at ddatblygu arferion. Meddu ar agwedd realistig, gadarnhaol tuag at newid.
- Cyfathrebu mewn ffordd uniongyrchol. Delio â sgyrsiau heriol yn hyderus.
- Annog adborth datblygiadol gan eraill a bod yn agored i'w dderbyn.
- Defnyddio blaengaredd i ddilyn gweithdrefnau er mwyn gwneud penderfyniadau priodol. Rhoi adborth lle gellir gwella'r rhain.
- Adlewyrchu'n onest ar arddull bersonol a'i heffaith ar eraill er mwyn datblygu sgiliau ac arddull yn ôl yr angen.

GWENT | ACTIVE
ACTIF | GWENT



# Y Broses Recriwtio



GWENT | ACTIVE
ACTIF | GWENT

## Tâl:

Bydd cyflog y Cyfarwyddwr Rhanbarthol yn £60,000- £70,000 y flwyddyn (yn ogystal â phecyn pensiwn). Bydd unrhyw dreuliau ychwanegol a rhesymol a gaiff eu had-dalu.

## Oriau:

Oriau gwaith hyblyg llawn amser o fewn cyfnodau craidd. Mae disgwyl y gallai fod angen i'r Cyfarwyddwr Rhanbarthol fynd i ddigwyddiadau / cyfarfodydd y tu allan i gyfnodau craidd.

## Lleoliad:

O bell, hyblyg gyda disgwyliad i ymgysylltu'n rheolaidd â phartneriaid ledled y rhanbarth.

## Sut i wneud cais:

Dyddiad Cau ar gyfer derbyn y Cais:
**Hanner dydd ar ddydd Gwener 1af Mai 2026**

Cyfweliadau:
**Dydd Llun 18fed Mai 2026**

Os ydych chi'n unigolyn sy'n meddwl yn strategol ac wedi ymrwymo'n llwyr i wella iechyd, lles a hapusrwydd pobl ledled Gwent drwy gymryd rhan weithredol gydol oes mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden corfforol, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.

**Fel rhan o'ch cais, dylech gyflwyno'r canlynol:**

- Eich **CV cyfredol** yn nodi manylion eich profiad proffesiynol, cefndir addysgol ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall sy'n cefnogi eich cais.
- **Llythyr cais** (2 dudalen A4 ar y mwyaf), yn tynnu sylw at eich addasrwydd ar gyfer y rôl gan gyfeirio at y gofynion ym manyleb y person. Amlinellwch brofiad perthnasol a'ch gweledigaeth ar gyfer cyfrannu at lwyddiant Gwent Actif.

Dylech anfon eich CV a'ch llythyr cais atom ar e-bost i
jobs@newportlive.co.uk

Defnyddiwch y llinell pwnc:
**Cais Cyfarwyddwr Rhanbarthol - [Eich Enw Llawn]**

## Ymholiadau a Rhagor o Wybodaeth:

Am ragor o fanylion am y rôl neu i drafod eich cais, cysylltwch â Jon Morgan drwy anfon e-bost at:
jon@sinsir.wales